Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant T22 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2750A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Er mwyn cyflawni deilliannau'r rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant yn fwy effeithiol, yn awr mae angen i'r Cyngor lywio cynnydd a chamau gweithredu ar y cyd i sicrhau deilliannau gwell.


Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham 4

Ffocws a Diben yr adolygiad 6

Rhan Un: Canfyddiadau Ein Hadolygiad 8

Er mwyn cyflawni deilliannau'r rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant yn fwy effeithiol, yn awr mae angen i'r Cyngor lywio cynnydd a chamau gweithredu ar y cyd i sicrhau deilliannau gwell 8

Er bod gan y Cyngor sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer yr agweddau gofal cymdeithasol ar ei raglen trawsnewid gwasanaethau plant, mae angen iddo adnabod modelau ymyrryd yn gynnar ac atal sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'u rhoi ar waith mewn modd mwy cynhwysfawr 8

Mae gweledigaeth y Cyngor ar gyfer trawsnewid ei wasanaethau plant yn uchelgeisiol ond mae angen iddo ddatblygu mesurau mwy eglur o lwyddiant i fonitro'i gynnydd tuag at ei ddeilliannau bwriadedig 9

Fe bennodd y Cyngor amserlen glir i ddechrau ar gyfer y rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant ac fe'i haddasodd yn wyneb COVID. Yn awr mae angen i'r Cyngor ddatblygu map trywydd eglur sy'n nodi'r drefn a graddfeydd amser ar gyfer cyflawni'r rhaglen yn y dyfodol 10

Mae gan y Cyngor fecanweithiau effeithiol i fonitro cynnydd yn erbyn allbynnau prosiectau'r rhaglen, ond mae angen iddo ddatblygu mecanweithiau mwy effeithiol i lywio cynnydd yn erbyn deilliannau bwriadedig y rhaglen 11

Yn rhannol oherwydd COVID, fe arafodd cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r blaenoriaethau a chydymffurfio â'r graddfeydd amser yn ei raglen trawsnewid gwasanaethau plant ac yn awr bydd angen i'r Cyngor gymryd camau gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â hyn er mwyn cyflawni deilliannau bwriadedig y rhaglen 12

Mae'r broses o roi rhaglen trawsnewid Gwasanaethau Plant y Cyngor ar waith wedi canfod yr angen i ddatblygu sgiliau trawsnewid ymhellach ar draws y Cyngor 13

Mae staff a phartneriaid yn teimlo ar y cyfan eu bod yn ymgysylltu'n llawn â rhaglen trawsnewid Gwasanaethau Plant y Cyngor 13

Efallai y bydd angen i'r Cyngor fynd i'r afael ag ystod o risgiau wrth iddo barhau i gyflawni ei raglenni trawsnewid 14

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 15

# Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Ym mis Ebrill 2019, fe gytunodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) ar y mandad ar gyfer ail gam y Rhaglen Trawsnewid T22 gyda'r pedwar maes blaenoriaeth canlynol:

- Cwsmeriaid a Digidol
- Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau cymorth
- Galluogi Trawsnewid

2 Fel rhan o Gynllun Archwilio'r Cyngor ar gyfer 2019-20, fe wnaethom nodi'r bwriad i gynnal adolygiad o agwedd ar gyflawni ei Raglen T22.

3 Ym mis Tachwedd 2019[1], roedd cyfradd y Cyngor o ran nifer y plant sy'n derbyn gofal am bob 10,000 o blant yn uwch nag unrhyw gyngor arall yng Nghymru a Lloegr ac roedd hyn yn achosi heriau ariannol sylweddol yn y Gwasanaethau Plant. Felly fe wnaethom nodi mai'r Gwasanaethau Plant fyddai ffocws yr adolygiad hwn oherwydd bod y twf yn y galw, y gost a dwysâd yn creu her i'r Cyngor a oedd yn fawr, yn gymhleth ac yn fater o frys, a'i fod yn dal i wneud hynny.

4 Ym mis Ebrill 2019, fe gytunodd y Cyngor ar nifer o strategaethau (byrdymor) cychwynnol i fynd i'r afael â'r heriau yn ei Wasanaethau Plant, gan gynnwys:

- mynd ati mewn modd diogel i drefnu bod rhai plant sy'n derbyn gofal yn camu i lawr; a
- mynd ati'n ddiogel ac yn effeithlon i frysbennu cysylltiadau ynghylch plant a phobl ifanc yn nrws ffrynt y Cyngor[2].

5 Aeth Hyb Diogelu a Chymorth Amlasiantaeth (MASSH) y Cyngor yn fyw ym mis Tachwedd 2019 ac fe gynhaliodd y Cyngor adolygiad o leoliadau plant hefyd i ystyried trefnu bod nifer o blant yn 'Camu i Lawr' neu'n 'Camu Allan' o'u lleoliadau presennol.

6 Ym mis Chwefror 2020, fe wnaeth Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Plant y Cyngor gymeradwyo briff rhaglen ar gyfer trawsnewid Gwasanaethau Plant. Roedd y briff rhaglen Gwasanaethau Plant yn nodi'r weledigaeth ganlynol ar gyfer plant a phobl ifanc yn Nhorfaen:

[1] Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth am bob 10,000 yn y boblogaeth dan 18 oed fesul awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)

[2] Mae'r 'drws ffrynt' yn cyfeirio at y pwynt cyswllt cychwynnol gyda gofal cymdeithasol i blant pan fo asesiad cychwynnol o anghenion y plentyn a'r teulu'n cael ei gynnal a'r Cyngor yn penderfynu pa un a all fod angen cymorth pellach gan y gwasanaeth gofal cymdeithasol. Hyb Diogelu a Chymorth Amlasiantaeth (MASSH) y Cyngor sy'n gweithredu fel y drws ffrynt yma.

- ‘Ein Gweledigaeth ar gyfer Torfaen yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau GORAU mewn bywyd ac yn cael eu cynorthwyo i gyrraedd eu llawn botensial yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn academaidd.’

7 Ym mriff y rhaglen, mae’r Cyngor hefyd wedi nodi pedwar dyhead allweddol i wella’r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc;

a. Bod yn llwyddiannus

b. Bod yn iach gan gael cymorth yn gynnar

c. Bod yn ddiogel

ch. Cael eu cefnogi

8 Roedd y rhaglen trawsnewid Gwasanaethau Plant yn nodi pum cam:

a. Cam 1 Diffinio a chytuno ar y weledigaeth a’r map trywydd ar gyfer y rhaglen drawsnewid (Chwarteri 3 a 4 2019);

b. Cam 2 Sefydlogi’r sefyllfa, rheoli’r galw (Chwarteri 1 a 2 2020);

c. Cam 3 Rheoli’r galw a rhoi strategaethau ar waith, osgoi costau (Chwarteri 3 a 4 2020);

ch. Cam 4 Troi’r llanw, ailddylunio gwasanaethau, model newydd ar gyfer darparu gwasanaethau (Chwarteri 1 a 2 2021); ac

d. Cam 5 Troi’r llanw (Chwarteri 3 a 4 2021).

9 Roedd briff y rhaglen trawsnewid Gwasanaethau Plant yn nodi nifer o amcanion yr oedd y rhaglen wedi’i bwriadu i’w cyflawni gan gynnwys:

a. ailddylunio’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant;

b. rhoi trefniadau rheoli perfformiad diwygiedig ar waith;

c. cryfhau dull y Cyngor o ymdrin â lleoliadau Plant sy’n Derbyn Gofal;

ch. comisiynu; ac

d. cynyddu presenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiadau mewn ysgolion.

10 Oherwydd effaith pandemig COVID-19 ym mis Ebrill 2020 fe gytunodd bwrdd trawsnewid T22 trosfwaol y Cyngor i leihau graddfa’r gweithgarwch trawsnewid i ganolbwyntio ar bedwar prosiect a fyddai’n cael blaenoriaeth allan o’r saith prosiect. Fe barhaodd y Cyngor i roi’r pedwar prosiect hynny ar waith, er yn arafach ac ar raddfa lai. Y pedwar prosiect a gafodd flaenoriaeth oedd;

- Trothwy angen
- Hyb Diogelu Amlasiantaeth
- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Stepping Stones

O ganlyniad, fe ataliwyd y tri phrosiect arall am y tro hefyd, sef Adolygiad o Wasanaeth y Tîm Lleoli Teuluoedd, model ymarfer seiliedig-ar-gryfderau (seiliedig-ar-asedau) a rheoli risgiau, ac Ymyrryd yn Gynnar ac Atal.

11 Rydym yn cydnabod bod y penderfyniad hwn wedi golygu nad oedd modd ymlynu wrth y graddfeydd amser a nodwyd ym mriff rhaglen Gwasanaethau Plant y Cyngor y cytunwyd arnynt ym mis Chwefror 2020 ar gyfer pob un o'r saith prosiect ac rydym wedi ceisio cymryd penderfyniad y Cyngor i ystyriaeth yn ystod ein hadolygiad.

12 Ar ddechrau mis Gorffennaf 2020, rhoddodd Cabinet y Cyngor ystyriaeth i bapur a oedd yn nodi effaith y gwaith cychwynnol i fodelu effaith pandemig COVID-19 ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Nododd y Cyngor 'bwysau parhaus yn lefelau'r plant y mae arnynt angen cymorth gofal cymdeithasol yn erbyn lefel y gyllideb y cytunwyd arni'.

# Ffocws a diben yr adolygiad

13 Ffocws a diben yr adolygiad hwn oedd darparu sicrwydd bod y Cyngor yn cyflawni ei raglen trawsnewid Gwasanaethau Plant T22 mewn modd effeithiol. Fe wnaethom hefyd geisio darparu mewnwelediad i unrhyw egwyddorion neu ddulliau trosglwyddadwy ar gyfer rhaglen drawsnewid T22 ehangach y Cyngor.

14 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Awst a mis Hydref 2020. Fe ymunodd rheolwr rhanbarthol Arolygiaeth Gofal Cymru yn y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws yn ystod yr adolygiad a bu'n mynychu cyfarfodydd allweddol gydag arweinwyr a swyddogion y Cyngor.

15 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes ym mis Hydref 2020 fe gyflwynom ni ein canfyddiadau i'r Cyngor yn gynnar ym mis Rhagfyr 2020. Yn dilyn clirio'r canfyddiadau hynny fe wnaethom wedyn hwyluso gweithdy adrodd yn ôl gyda Chabinet ac Uwch Dîm Arwain y Cyngor tuag at ddiwedd mis Mawrth 2021. Yn y gweithdy hwnnw fe gyflwynom ni ein meysydd sicrwydd a meysydd i'w datblygu yn erbyn cwestiynau ein hadolygiad ac fe wahoddom ni'r Cyngor i ddechrau datblygu ei ymateb i'r canfyddiadau hynny.

16 Mae Rhan 1 o'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau ac mae Rhan 2 yn nodi ymateb y Cyngor i'r canfyddiadau hynny.

## Yr hyn a ganfuom

17 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A yw'r Cyngor yn cyflawni ei raglen trawsnewid Gwasanaethau Plant T22 mewn modd effeithiol?**

18 Ar y cyfan canfuom fel a ganlyn: **Er mwyn cyflawni deilliannau'r rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant yn fwy effeithiol, yn awr mae angen i'r Cyngor lywio cynnydd a chamau gweithredu ar y cyd i sicrhau deilliannau gwell**. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- er bod gan y Cyngor sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer yr agweddau gofal cymdeithasol ar ei raglen trawsnewid gwasanaethau plant, mae angen iddo adnabod modelau ymyrryd yn gynnar ac atal sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'u rhoi ar waith mewn modd mwy cynhwysfawr.

- mae gweledigaeth y Cyngor ar gyfer trawsnewid ei wasanaethau plant yn uchelgeisiol ond mae angen iddo ddatblygu mesurau mwy eglur o lwyddiant i fonitro'i gynnydd tuag at ei ddeilliannau bwriadedig.
- fe bennodd y Cyngor amserlen glir i ddechrau ar gyfer y rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant ac fe'i haddasodd yn wyneb COVID. Yn awr mae angen i'r Cyngor ddatblygu map trywydd eglur sy'n nodi'r drefn a graddfeydd amser ar gyfer cyflawni'r rhaglen yn y dyfodol.
- mae gan y Cyngor fecanweithiau effeithiol i fonitro cynnydd yn erbyn allbynnau prosiectau'r rhaglen, ond mae angen iddo ddatblygu mecanweithiau mwy effeithiol i lywio cynnydd yn erbyn deilliannau bwriadedig y rhaglen.
- yn rhannol oherwydd COVID, fe arafodd cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r blaenoriaethau a chydymffurfio â'r graddfeydd amser yn ei raglen trawsnewid gwasanaethau plant ac yn awr bydd angen i'r Cyngor gymryd camau gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â hyn er mwyn cyflawni deilliannau bwriadedig y rhaglen.
- mae'r broses o roi rhaglen trawsnewid Gwasanaethau Plant y Cyngor ar waith wedi canfod yr angen i ddatblygu sgiliau trawsnewid ymhellach ar draws y Cyngor.
- mae staff a phartneriaid yn teimlo ar y cyfan eu bod yn ymgysylltu'n llawn â rhaglen trawsnewid Gwasanaethau Plant y Cyngor.
- efallai y bydd angen i'r Cyngor fynd i'r afael ag ystod o risgiau wrth iddo barhau i gyflawni ei raglenni trawsnewid.

# Rhan Un: Canfyddiadau Ein Hadolygiad

## Er mwyn cyflawni deilliannau'r rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant yn fwy effeithiol, yn awr mae angen i'r Cyngor lywio cynnydd a chamau gweithredu ar y cyd i sicrhau deilliannau gwell

### Er bod gan y Cyngor sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer yr agweddau gofal cymdeithasol ar ei raglen trawsnewid gwasanaethau plant, mae angen iddo adnabod modelau ymyrryd yn gynnar ac atal sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'u rhoi ar waith mewn modd mwy cynhwysfawr

19 Fe wnaethom adolygu'r canlynol;

- i ba raddau yr oedd y Cyngor wedi adolygu ac ystyried tystiolaeth berthnasol i oleuo'i newidiadau arfaethedig i ofal cymdeithasol i blant; ac
- i ba raddau yr oedd y Cyngor wedi adolygu ac ystyried tystiolaeth berthnasol i oleuo'i newidiadau arfaethedig i'r dull ehangach o ran gwasanaethau plant.

20 Wrth ddod i'r casgliad hwn fe wnaethom adnabod y nodweddion allweddol canlynol o ran sicrwydd a meysydd i'w datblygu:

### Sicrwydd

- lefelau da o ddealltwriaeth pam fod angen trawsnewid gofal cymdeithasol i blant;
- cydnabyddiaeth i'r effaith negyddol sylweddol ar ddeilliannau hirdymor plant a phobl ifanc a'u teuluoedd;
- dealltwriaeth am y pwysau ariannol oherwydd nifer cynyddol y plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys cost lletya plant;
- tystiolaeth glir a chadarn ar gyfer newidiadau i ofal cymdeithasol i blant gan gynnwys, trothwy angen, hyb diogelu a model ymarfer seiliedig-ar-gryfderau; a hefyd
- camau dilynol i fabwysiadu modelau ymarfer seiliedig-ar-dystiolaeth ar gyfer yr hyb diogelu.

### Meysydd i'w datblygu

- yn unol â'r weledigaeth ar gyfer trawsnewid, canfod tystiolaeth berthnasol a chadarn i ategu'r agweddau ymyrryd yn gynnar ac atal i ganolbwyntio ar y meysydd a allai o bosibl gynnig yr effaith fwyaf; a
- mynd ati mewn modd mwy cynhwysfawr i roi modelau ymyrryd yn gynnar ac atal seiliedig-ar-dystiolaeth ar waith.

## Mae gweledigaeth y Cyngor ar gyfer trawsnewid ei wasanaethau plant yn uchelgeisiol ond mae angen iddo ddatblygu mesurau mwy eglur o lwyddiant i fonitro'i gynnydd tuag at ei ddeilliannau bwriadedig

21 Fe wnaethom adolygu'r canlynol:

- pa mor glir yr oedd y Cyngor wedi nodi ei weledigaeth ar gyfer ei raglen trawsnewid gwasanaethau plant bellgyrhaeddol; a
- pha mor glir y mae'r Cyngor wedi nodi ei ddeilliannau bwriadedig a mesurau o lwyddiant i sicrhau ei fod yn gallu tracio cynnydd tuag at ei ddeilliannau.

22 Wrth ddod i'r casgliad hwn fe wnaethom adnabod y nodweddion allweddol canlynol o ran sicrwydd a meysydd i'w datblygu:

### Sicrwydd

- gweledigaeth uchelgeisiol yng ngoleuni maint a chymhlethdod yr her; a
- phedwar deilliant allweddol lefel uchel yn tanategu'r weledigaeth.

### Meysydd i'w datblygu

- mynd ati ymhellach i egluro'r weledigaeth yn y pen draw a sicrhau perchnogaeth arni ar draws yr holl wasanaethau perthnasol eraill yn y Cyngor a chyda phartneriaid (integreiddio a chydlafurio) i greu effeithlonrwydd;
- cadarnhau ffactorau llwyddiant hollbwysig a sut y bydd y rhain yn cael eu mesur i sicrhau ansawdd y deilliannau;
- sicrhau 'Edefyn Aur' eglur o amcanion, nodau a strategaethau ar gyfer y rhaglen i wireddu'r weledigaeth;
- adolygu eglurder y map trywydd yn ôl o'r weledigaeth fwriadedig yn hytrach na thuag ati;
- datblygu deilliannau eglur ar gyfer Deilliannau 1 a 2, nid allbynnau;
- mynd ati o bryd i'w gilydd i adolygu arbedion ariannol y gellir eu cyflawni'n realistig;

- sicrhau o bryd i'w gilydd y gwneir gwaith i sganio'r gorwel er mwyn deall a chynllunio ar gyfer galw posibl a allai gael ei achosi gan effeithiau COVID yn y tymor canolig a hwy.

## Fe bennodd y Cyngor amserlen glir i ddechrau ar gyfer y rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant ac fe'i haddasodd yn wyneb COVID. Yn awr mae angen i'r Cyngor ddatblygu map trywydd eglur sy'n nodi'r drefn a graddfeydd amser ar gyfer cyflawni'r rhaglen yn y dyfodol

23 Fe wnaethom adolygu:

- pa mor glir y mae'r Cyngor wedi trefnu ei gamau gweithredu i drawsnewid ei wasanaethau plant; a
- pha mor glir y mae'r Cyngor wedi pennu ei raddfeydd amser ar gyfer cyflawni'r trawsnewid.

24 Wrth ddod i'r casgliad hwn fe wnaethom adnabod y nodweddion allweddol canlynol o ran sicrwydd a meysydd i'w datblygu:

### Sicrwydd

- roedd briff y rhaglen yn nodi'r graddfeydd amser cychwynnol;
- mae'r prosiectau unigol yn canolbwyntio ar newidiadau allweddol;
- pum prosiect sy'n flaenoriaeth yn canolbwyntio i ddechrau ar ofal cymdeithasol i blant; ac
- yn ystod yr ymateb cychwynnol i COVID yn 2020, datblygwyd cynlluniau cyflawni diwygiedig gyda graddfeydd amser diwygiedig.

### Meysydd i'w datblygu

- cyflwyno hyfforddiant trothwy angen a sefydlu ymarfer o fewn y gwasanaeth gofal cymdeithasol i ddechrau;
- sicrhau bod sefydliadau partner yn deall trothwy angen;
- rhoi'r model ymarfer seiliedig-ar-gryfderau ar waith ar draws y gwasanaeth gofal cymdeithasol a phartneriaid;
- sicrhau cysylltiadau effeithiol rhwng Stepping Stones a'r tîm Lleoli Teuluoedd i sicrhau capasiti digonol i ddiwallu'r angen yn y tymor byr a hwy;
- adnabod carfannau o blant sy'n derbyn gofal a'u llwybrau gofal a'u hadolygu'n rheolaidd;
- egluro graddfeydd amser ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu/allbynnau dan Ddeilliannau 1 a 2 a gymeradwywyd gan y BRhTGP ym mis Hydref 2020; ac

- adolygu’r raddfa amser ar gyfer cyflawni’r rhaglen drawsnewid.

## Mae gan y Cyngor fecanweithiau effeithiol i fonitro cynnydd yn erbyn allbynnau prosiectau’r rhaglen, ond mae angen iddo ddatblygu mecanweithiau mwy effeithiol i lywio cynnydd yn erbyn deilliannau bwriadedig y rhaglen

25 Fe wnaethom adolygu:

- pa un a yw’r Cyngor wedi sefydlu mecanweithiau effeithiol i fonitro ei gynnydd o ran cyflawni’r deilliannau bwriadedig yn ei raglen trawsnewid Gwasanaethau Plant ar lefel prosiectau ac ar lefel y rhaglen.

26 Wrth ddod i’r casgliad hwn fe wnaethom adnabod y nodweddion allweddol canlynol o ran sicrwydd a meysydd i’w datblygu:

### Sicrwydd

- briff cymeradwy ar gyfer y Rhaglen sy’n nodi’r pedwar deilliant lefel uchel bwriadedig ar gyfer y Rhaglen;
- mecanweithiau clir i adrodd ar gynnydd yn erbyn gweithgarwch ar lefel prosiectau;
- mecanweithiau clir i adrodd ar risgiau ac uwchgyfeirio risgiau i brosiectau unigol; a
- phrosesau clir i fonitro cynnydd ariannol.

### Meysydd i’w datblygu

- adolygu trefniadau monitro’r rhaglen i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro yn erbyn ffactorau llwyddiant hollbwysig yn ogystal â deilliannau, amser a chost;
- ystyried a yw’r fframwaith rheoli perfformiad yn darparu’r mewnwelediad cywir i alluogi herio ac ymyrryd effeithiol i ddigwydd ar bob lefel berthnasol;
- adolygu effeithiolrwydd Bwrdd y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant o ran llywio proses herio adeiladol i gyflawni deilliannau bwriadedig ar amser ac am y gost y cynlluniwyd ar ei chyfer;
- adolygu a blaenoriaethu eitemau ar agendâu Bwrdd y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant;
- ystyried ymwneud y swyddogaeth Graffu â monitro a herio cynnydd; a
- sicrhau dull cyson o ran statws Coch, Ambr a Gwyrdd mewn adroddiadau ar brosiectau a’r rhaglen.

## Yn rhannol oherwydd COVID, fe arafodd cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r blaenoriaethau a chydymffurfio â'r graddfeydd amser yn ei raglen trawsnewid gwasanaethau plant ac yn awr bydd angen i'r Cyngor gymryd camau gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â hyn er mwyn cyflawni deilliannau bwriadedig y rhaglen

27 Fe wnaethom adolygu:

- pa un a yw'r Cyngor yn cyflawni'n effeithiol yn erbyn ei flaenoriaethau a graddfeydd amser ar gyfer trawsnewid Gwasanaethau Plant.

28 Wrth ddod i'r casgliad hwn fe wnaethom adnabod y nodweddion allweddol canlynol o ran sicrwydd a meysydd i'w datblygu:

### Sicrwydd

- rhaglen o weithgarwch y cytunwyd arni gyda blaenoriaethau clir a graddfeydd amser cychwynnol;
- fe gwblhawyd proses flaenoriaethu yn ystod yr ymateb cychwynnol i COVID;
- dengys data fod MASSH wedi arafu cyfradd yr atgyfeiriadau cynyddol o oddeutu 12% i 4% rhwng 2018-19 a 2019-20, ond gwelir cynnydd yn 2020-21;
- Hunanasesiad y Cyngor o gynnydd ym mis Gorffennaf 2020:
  - Da = MASSH/Rheoli Perfformiad/Rheoli'r Rhaglen;
  - Da ond oedi wedi bod oherwydd COVID-19 = Model Ymarfer Seiliedig ar Risgiau a Chryfderau/Stepping Stones/Lleoli Teuluoedd/Caffael;
  - Araf = Trothwyon Angen a Ffrydiau Gwaith 1 a 2. Rhaglen o weithgarwch y cytunwyd arni gyda blaenoriaethau clir a graddfeydd amser cychwynnol.

### Meysydd i'w datblygu

- cyflymder cyflawni ar y cyfan;
- sefydlu'r model Stepping Stones fel rhan o fusnes fel arfer;
- ystyried capasiti i gyflawni trawsnewid o fewn y raddfa amser a busnes fel arfer;
- ystyried a ellir cyrchu arbenigedd a chapasiti perthnasol o wasanaethau eraill y Cyngor, er enghraifft gwasanaethau Oedolion; a
- datblygu cynlluniau gweithredu i gyflawni Deilliannau 1 a 2, gyda ffocws allweddol ar ymyrryd yn gynnar ac atal.

## Mae'r broses o roi rhaglen trawsnewid Gwasanaethau Plant y Cyngor ar waith wedi canfod yr angen i ddatblygu sgiliau trawsnewid ymhellach ar draws y Cyngor

29 Fe wnaethom adolygu a yw'r Cyngor yn dysgu'n effeithiol o gyflawni ei raglen trawsnewid Gwasanaethau Plant.

30 Wrth ddod i'r casgliad hwn fe wnaethom adnabod y nodweddion allweddol canlynol o ran meysydd i'w datblygu:

### Meysydd i'w datblygu

- deall ac asesu'r angen i ddatblygu capasiti a sgiliau trawsnewid ar draws y Cyngor;
- asesu capasiti staff i ymgysylltu â grwpiau Gorchwyl a Gorffen gan ddygymod â'u llwyth gwaith arferol ar yr un pryd;
- sicrhau bod byrddau trawsnewid yn taro cydbwysedd rhwng y gwaith goruchwylio ac arwain strategol a gweithredol sy'n ofynnol i gyflawni'r rhaglen drawsnewid yn effeithiol; a
- cheisio gwersi gan gynghorau eraill yng Nghymru, y tu hwnt i Went.

## Mae staff a phartneriaid yn teimlo ar y cyfan eu bod yn ymgysylltu'n llawn â rhaglen trawsnewid Gwasanaethau Plant y Cyngor

31 Fe wnaethom adolygu a yw staff a phartneriaid yn teimlo'u bod yn ymgysylltu'n llawn â'r broses o drawsnewid Gwasanaethau Plant ac a ydynt yn gallu cyfrannu'n effeithiol.

32 Wrth ddod i'r casgliad hwn fe wnaethom adnabod y nodweddion allweddol canlynol o ran sicrwydd a meysydd i'w datblygu:

### Sicrwydd

- ymdrechion cadarnhaol i gynnwys staff mewnol yn y broses;
- egni ac ymrwymiad amlwg gan staff MASSH;
- adborth cadarnhaol gan yr Heddlu ar ymgysylltu a'r gallu i gyfrannu;
- roedd y tîm cyllid corfforaethol yn teimlo'u bod wedi ymgysylltu'n gryf â'r broses ac maent yn cael sgyrsiau adeiladol ond heriol gyda swyddogion perthnasol;
- ar y cyfan mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi trwy'r broses; ac
- roedd staff a oedd yn gweithio mewn gwasanaeth a oedd wedi'i drawsnewid yn fwy cadarnhaol ar y cyfan na'r staff mewn gwasanaeth nad yw ond megis dechrau ar y broses drawsnewid.

**Meysydd i'w datblygu**

- meithrin dealltwriaeth well am raddfa a chymhlethdod y rhaglen drawsnewid a sut y mae rolau unigol yn cyfrannu at y rhaglen drawsnewid;
- ymgysylltu â'r holl bartneriaid perthnasol;
- gwella cyfathrebu yn fertigol ac yn llorweddol fel bod neges gref oddi wrth arweinwyr trawsnewid ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd, pam a phryd, ac
- ystyried sut y gall mwy o weithio ystwyth/hyblyg gael effaith ar gyflawni prosiectau trawsnewid eraill.

## Efallai y bydd angen i'r Cyngor fynd i'r afael ag ystod o risgiau wrth iddo barhau i gyflawni ei raglenni trawsnewid

33 Yn ystod yr adolygiad, canfuom nifer o risgiau strategol y bydd angen i'r Cyngor eu hystyried wrth iddo roi'r rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant ar waith ymhellach. Gallai'r risgiau hyn fod yn berthnasol i raglenni trawsnewid eraill y bydd y Cyngor o bosibl yn eu rhoi ar waith hefyd:

- Graddfa'r deilliannau a ddisgwylir o fewn y graddfeydd amser
- Bod â'r capasiti ac arweinyddiaeth strategol iawn ar gyfer y rhaglen
- Bod â'r capasiti a sgiliau iawn i gyflawni'r prosiectau
- Darparu adnoddau ar gyfer y rhaglen drawsnewid o fewn sefyllfa ariannol y Cyngor
- Datblygu'r system gymorth ehangach fel bod system gymorth ehangach i helpu teuluoedd pan nad yw MASSH yn derbyn atgyfeiriad
- Cyflawni rhianta corfforaethol effeithiol
- Ennyn ymgysylltiad partneriaid iechyd ar y lefel iawn i gefnogi potensial y deilliannau i gysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Sicrhau ymgysylltiad ac ymrwymiad cyson gan staff trwy gydol y broses

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

34 Fe gytunom ni ar bob sicrwydd a maes i'w ddatblygu yn yr adroddiad hwn gyda'r Cyngor. Tuag at ddiwedd mis Mawrth 2021 fe gyflwynom ni'r canfyddiadau hyn i Uwch Dîm Arwain a Chabinet y Cyngor. Yn y gweithdy hwnnw dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau.

35 Yn ystod haf 2021 yn dilyn penodi'r Prif Weithredwr newydd, fe benderfynodd y Cyngor ddatblygu strategaeth pum mlynedd newydd ar gyfer y Gwasanaethau Plant sy'n amcanu at ymdrin â chanfyddiadau'r adolygiad.

36 Mae'r Cyngor yn disgwyl cyhoeddi ei strategaeth newydd yn gynnar yn 2022.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.